COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Ebrill 12fed, 2017 am saith o'r gloch

PRESENNOL

John Gwilym Jones (Cadeirydd), Alun Jones (Is-gadeirydd), John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, R. Phillip Roberts, William B. Williams

YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr R.H. Wyn Williams a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Phill Wood o Abersoch Watersports – gweler cofnod 4. Materion yn Codi ch)ii) isod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorwyr a ganlyn fuddiant personol yng ngheisiadau cynllunio:

- William B. Williams – C17/0318/39/LL – Tir ger Deudraeth, Aber-soch – perchennog tir gerllaw; C17/0320/39/LL – Fferm Pant Gwyn, Sarn Bach – perchennog safle carafannau sefydlog
- Alun Jones, John Gwilym Jones a Dylan Llwyd – C17/0320/39/LL – Fferm Pant Gwyn, Sarn Bach – yr ymgeisydd yn perthyn iddynt.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 8fed, 2017 yn gywir ar ôl cywiro mai rhai Chwefror 8fed oeddynt a nodi mai £18.50 yn hytrach na £10.50 oedd arian mynediad y toiledau a chredyd ar anfoneb nesaf npower ddylai'r £14.97 fod nid ad-daliad yng nghofnod 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau a) ac c).

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiad, er cysylltu eto, os oes polisi yn caniatáu dymchwel un tŷ ac adeiladu dau ar yr un safle yn dilyn derbyn dyfarniad y caniatawyd cais C16/1578/39/LL, sef dymchwel tŷ ac adeiladau allanol cysylltiedig ac adeiladu dwy annedd a datblygiad cysylltiedig yn Glenville, Aber-soch**.**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C16/1258/39/MG	Cynlluniau Diwygiedig – Cais i gymeradwyo manylion a gadwyd yn ôl ar gyfer gosod siale gwyliau, darpariaeth parcio, cyfnewid tanc septig am system trin preifat yn dilyn caniatâd amlinellol C13/1218/39/AM – 21 Ystád Braich, Mynytho **– Cefnogir**
C17/0136/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd yn ei le – Ynysfor Bach, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad ar safle cyfyng ar briffordd hynod brysur a chul**

C17/0206/39/CR	Dymchwel adeilad allanol cefn ac adeiladu estyniad unllawr newydd, ynghyd ag addasiadau mewnol ac adnewyddu'r ffenestri presennol – The Lodge, Haulfryn, Stryd Fawr, Aber-soch **– Cefnogir**
C17/0207/39/LL	Dymchwel adeilad allanol cefn ac adeiladu estyniad unllawr newydd, ynghyd ag addasiadau mewnol ac adnewyddu'r ffenestri presennol – The Lodge, Haulfryn, Stryd Fawr, Aber-soch **– Cefnogir**
C17/0213/39/LL	Codi clawdd pridd a thirlunio – The Warren, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd dechreuwyd ar y gwaith cyn derbyn dyfarniad ac mae'n llawer rhy agos at y clawdd terfyn presennol. Mynegwyd y dylid ei ddadwneud a'i symud fwy i ganol y cae, gan y gellid elwa o'r gofod ychwanegol i osod mwy o garafannau – gwrthwynebir hynny**
C17/0236/39/LL	Estyniad i'r talcen, ymestyn ffenestr gromen ac addasiadau i do'r modurdy i greu to brig – 20 Tan y Gaer, Aber-soch **– Cefnogir**
C17/0247/39/LL	Adeiladu modurdy ar wahân a newid defnydd tir i ddefnydd domestig – The View Shop, Bwlchtocyn – **Gwrthwynebir oherwydd ei fod ar nenlinell bryncyn amlwg mewn AHNE ac yn gynefin gwyllt naturiol**
C17/0268/39/LL	Newid balconi presennol ar edrychiad blaen am falconi mwy, creu porth ac ystafell wely o dan rhan o'r balconi – 92 Ystád Cae Du, Aber-soch **– Cefnogir**
C17/0272/39/LL	Cais Ôl-weithredol i ddymchwel cwt glan môr gwreiddiol ac adeiladu un newydd â man storio oddi tano – Cwt Glan Môr 2, Borth Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn creu cynsail i'r gweddill a modd o gynyddu eu maint**
C17/0278/39/LL	Cwt glan môr newydd yn lle un presennol â llwyfan bren a storfa oddi tano – Cwt Glan Môr 23, Borth Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn creu cynsail i'r gweddill a chynyddu eu maint**
C17/0294/39/LL	Cyfnewid ffenestr am un fwy – Fat Face, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Cefnogir**
C17/0318/39/LL	Adeiladu tŷ ar wahân a gwaith cysylltiol – Tir ger Deudraeth, Aber-soch **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – WBW]**
C17/0320/39/LL	Lleoli dwy garafán sefydlog ychwanegol i'r safle presennol, ynghyd â gwelliannau a gosod carafán sefydlog fel swyddfa – Fferm Pant Gwyn, Sarn Bach – **Cefnogir y ddwy garafán ychwanegol a'r gwelliannau ond, nid yr un fel swyddfa oherwydd nad oes digon ar y safle i'w chyfiawnhau [Datgan Diddordeb – AJ, JGJ, DLl, WBW]**

Cymerodd Cyng. Robert Morris Jones y gadair i drafod y cais uchod oherwydd y datganodd y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Cyn-gadeirydd ddiddordeb ynddo.

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Lôn Traeth***

- Anfonwyd y ddogfennaeth at gyfreithiwr y Cyngor parthed y drysau.
- Cadarnhawyd ad-dalu £6.48 i'r Clerc am arwyddion metel merched/dynion i'r toiledau oherwydd pliciwyd y rhai plastig oddi ar y drysau – gweler 13. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.
- Cysylltwyd â Healthmatic i holi am y darn punt newydd – dylai'r peiriannau ei dderbyn yn iawn.

ii) ***Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Toiled/au Cyhoeddus yn eich Cymuned***
Dychwelwyd copi o'r gytundeb. Ni dderbyniwyd ymateb i'r llythyr yn mynegi siomedigaeth o weld cynifer o wallau iaith mewn dogfen gyfreithiol. Nodwyd, hefyd, y dylid sicrhau y gosodir peiriannau talu yn y toiledau cyn yr ystyria'r Cyngor fod yn gyfrifol amdanynt o'r flwyddyn ariannol 2018 ymlaen.

b) **Glanhau Afon Soch**
Ni dderbyniwyd ymateb.

c) **Mynwent y Bwlch**
Penderfynwyd gohirio trafod ffensio rhan isaf y fynwent a'i osod fel tir pori.

ch) **Cyng. Wyn Williams – Cae Chwarae Aber-soch**

i) ***Cae Pêl-droed***
Derbyniwyd neges drwy law WW fod y noddwr yn barod i gysylltu â chynrychiolydd o'r Cyngor er mwyn i'r cwmni ymweld â'r cae i'w archwilio a'i fesur. Ychwanegodd y Cadeirydd y cafodd air â WW hefyd ac awgrymu nad oes angen i'r noddwr fod yn bresennol pan wneid hynny. Bodlonodd WW gydlynu'r trafodaethau rhwng y Cyngor a'r noddwr yn dilyn ei ymddeoliad.

ii) ***Parc Sglefrfyrddio***
Eglurodd Phill Wood, Abersoch Watersports, fwriad y criw bach (pedwar ar hyn o bryd) a ddymuna uwchraddio'r uchod – datblygodd yr offer gryn dipyn dros y blynyddoedd (gosodwyd y rhai presennol yn **2005**) ac mai concrid ydynt erbyn hyn â gwarant o tua deng mlynedd ar hugain. Maent yn haws i'w defnyddio a llai swnllyd a threulir mwy o amser arnynt o'r herwydd, yn ogystal â bod yn rhatach i'w cynnal a'u cadw. Ni fydd cynnydd ym maint y safle – bwriedir defnyddio'r wyneb presennol ac adeiladu rampiau/waliau ohono. Dosbarthwyd copi o luniau/cynllun/ costau a dderbyniwyd oddi wrth un cwmni – £80,000 (mae'r rhai drytaf tua £150,000). Bwriad mynychu heno yw ceisio caniatâd y Cyngor cyn sefydlu pwyllgor swyddogol i godi arian drwy nawdd a sefydlu tudalen 'Crowdfunding' ar y we. Y Pwyllgor fyddai'n gyfrifol am ei gynnal a'i gadw. Credir na ellid dechrau ar y gwaith am o leiaf flwyddyn/ddeunaw mis er mwyn codi'r arian.
Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Wood am ddod atom i egluro'r bwriad a phleidleisiwyd yn unfrydol i gefnogi'r cynllun. Awgrymwyd y buasai'n fuddiol medru gwneud y ddau gynllun yr un pryd er mwyn arbed y cae.

iii) ***Archwiliad Iechyd a Diogelwch***
Cysylltwyd â chwmni Wicksteed i holi am yr uchod, yn dilyn danfon cais am archwiliad heb gwmni i'r ddau gae chwarae ar Dachwedd 9fed y llynedd – mae'n amlwg na chyrhaeddodd pen ei daith ac fe'i ailarchebwyd.

iv) ***Neges trwy Wefan y Cyngor***
Derbyniwyd neges trwy'r uchod yn hysbysu fod seddau siglenni'r babanod wedi torri – llwyddodd y Clerc eu codi a'u cylchdroi o amgylch y ffrâm cyn dod heno; dywedodd EWR yr âi i'w tynnu fory – diolchwyd iddo.

d) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**
Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth yr Heddlu parthed cyfraniad at gamera newydd – penderfynwyd ei archebu ac os dyfernir cyfraniad, gorau oll – na gwybodaeth am pryd y derbynnir yr arwyddion.

dd) **Meddygfa Aber-soch (Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Eich Ardal Chi – Beth sy'n Bwysig?)**
Derbyniwyd ymddiheuriad am yr oedi cyn ateb yr ymholiad am sefyllfa ddiweddaraf y Feddygfa – cysylltir eto pan fydd mwy o wybodaeth.

e) **Gohebiaeth: 9dd) Grŵp Cynefin – Cartrefi Fforddiadwy Stád Cornwall, Mynytho**
Cynhaliwyd diwrnod agored ddydd Sadwrn, Mawrth 25ain. Deil pedwar plot ar ôl ac fe'u hysbysebir trwy Ddwyfor bellach gan na fu digon o ddiddordeb gan unigolion yn y gymuned – hysbyswyd hwy yn Eisteddfod Mynytho nos Sadwrn hefyd.
Derbyniwyd holiadur oddi wrth Arfon Hughes, ar gais Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynefin, i dderbyn ymateb y rhai a ymwnâi â'r Gwasanaeth Hwylusydd Tai Gwledig yn sgîl gwaith mewn ardaloedd fel Mynytho – fe'i atebwyd dros y ffôn.

f) **Gohebiaeth: 9i) Nimbus Lightning Protection Ltd. – Corn Tanrallt**
Cysylltwyd eto i ofyn am ddyddiad – dydd Mercher, Ebrill 26ain.

5. **COED YR ALLT, ABER-SOCH**

Derbyniwyd neges fod rhywun yn torri coed yr uchod (dangoswyd lluniau). Aeth Cyng. Dylan Llwyd a'r Clerc yno a chyfarfod â'r dyn; cyfaddefodd i'r hyn a wnaeth ac, er iddo nodi manylion y Clerc, ni chysylltodd â hi wedyn. Torrwyd pymtheg coeden i gyd ac, yn waeth na dim, gadawodd bedair heb eu torri trwyddynt – gallent fod wedi disgyn ac achosi niwed difrifol. Mae'r mater yn nwylo'r Heddlu erbyn hyn – bwriedir trosglwyddo'r achos i Wasanaeth Erlyn y Goron. Derbyniwyd anfoneb am £725.00 i dorri'r coed peryglus a thacluso'r safle – gweler 13. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod – a disgwylir pris am blannu mwy.

6. **ETHOLIADAU – CYNGHORAU CYMUNED A THREF**

- Penderfynwyd ysgrifennu i fynegi anfodlonrwydd â'r drefn o beidio â derbyn ffurflenni enwebu yn Swyddfa'r Cyngor ym Mhwllheli er y tanlinellir hynny yn y llythyr a dderbyniwyd; cysylltir â Chynghorau Cymuned eraill i ofyn os wynebont hwy yr un broblem hefyd.
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth Cyng. John E. Griffiths yn hysbysu y penderfynodd ymddeol fel Cynghorydd dros Ward Aber-soch ar ôl dros ugain mlynedd o wasanaeth. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo, a'r Cyng. Thelma Cordingley, am eu cyfraniad i'r gymuned a'r Cyngor dros y blynyddoedd – ysgrifennir yn swyddogol atynt. Enwebwyd Andrew Weir yn lle JEG ac Owi Lloyd Jones yn lle TC. Yn yr un modd, diolchwyd i'r Cyng. Wyn Williams – er ei absenoldeb wrth ddathlu ei ben-blwydd â'i deulu – am ei gyfraniad yntau fel Aelod Lleol dros y blynyddoedd. Wrth ymddiheuro am ei absenoldeb, diolchodd i aelodau'r Cyngor am eu cyfeillgarwch ar hyd y daith ac, yn sicr, eu cydweithrediad, ynghyd â'i werthfawrogiad o'u holl waith a'r ymroddiad i'r gymuned, gan gofio ein hunaniaeth. Diolchodd i'r Clerc am fod yn ddolen gyswllt ardderchog. Dymunodd yn dda i bawb, a'r Cyngor.

7. **CYFRIFON**

a) ***Dogfennaeth Archwiliad 2016 – 2017 BDO***
Derbyniwyd hysbysiad o'r uchod oddi wrth BDO ond, pennwyd y dyddiad archwilio yn anghywir ar bob ffurflen – nodwyd Mawrth 15fed, deuddydd cyn derbyn y

ddogfennaeth! Derbyniwyd e-bost ymhen ychydig ddyddiau'n nodi mai Gorffennaf 3ydd ddylai'r dyddiad fod ac ymddiheurwyd am y camsyniad.

b) ***Archwilydd Mewnol – Dyddiadau Archwilio 2016 – 2017***
Derbyniwyd llythyr oddi wrth John D. Roberts, Archwilydd Mewnol, yn nodi y dyddiad bydd ar gael i archwilio'r llyfrau – Mai 22ain; bydd rhaid cynnal cyfarfod arbennig i'w gadarnhau. Penderfynwyd derbyn ei wahoddiad i fod yn Archwilydd Mewnol ac anfonir llythyr yn cadarnhau hynny, gan nodi mwy o fanylion ag a wnaethpwyd y llynedd – tynnwyd sylw at y diffyg manylion yn llythyr gwahoddiad 2015 – 2016 gan BDO.

c) ***Baner Las/Gwobr Traeth***
Derbyniwyd neges oddi wrth Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, yn hysbysu yr adolygir gofynion y Wobr Traeth ar y funud a gobeithir cael cadarnhad o'r sefyllfa ym mis Ebrill. O ganlyniad, gofynna a fyddai'r Cyngor yn fodlon talu eleni – fe'i cyfrifiwyd yn y gyllideb eisoes.

8. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Anfonwyd y mater at y Swyddog Gorfodaeth.

b) **Gorfodaeth**
Llythyrau'n nodi yr ymchwilir i'r ymholiadau/cwynion o ganlyniad i waith gael ei wneud ar yr isod cyn dyfarniad na chais:

i) gwaith peirianyddol di-ganiatâd – The Warren, Aber-soch – trafodwyd y cais yn 3. Ceisiadau Cynllunio uchod
ii) newidiadau i dŷ – 67 Cae Du, Aber-soch – dim gohebiaeth bellach.

9. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Materion Cynnal a Chadw yn y Gymuned**
i) ***Mainc Sarn Bach*** – Gan na dderbyniwyd ymateb oddi wrth Goleg Meirion Dwyfor Glynllifon tybir na wneir meinciau yno fel Antur Aelhaearn gynt.
ii) ***Coed ger Ysgubor Wen*** – mae ar y rhaglen waith.
iii) ***Lôn Sarn Bach –*** mynegwyd pryder am gyflwr yr eiddew ar y wal a'r gwellt ar y llwybr troed, yn arbennig rhwng Bodlondeb ac Eryri – cysylltir â'r Adran.

b) **Rhaglen Waith mis Ebrill**
- Cerbio mynedfa Erw Grug, Mynytho – fe'i cwblhawyd erbyn hyn.

c) **Cylchdeithiau Graeanu Blaenoriaeth Gyntaf Ardal Aber-soch**
Copi o lythyr a dderbyniodd Cyng. Wyn Williams yr wythnos hon yn nodi na chyrhaedda gategori defnydd na risg Lôn Engan y gofynion i gyfiawnhau ei hychwanegu at yr uchod – er ei bod yn lwybr bws.

10. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***

Adroddodd yr Is-gadeirydd mai un ffens newydd sydd ei angen ac atgyweirio a phaentio'r llall yn dilyn cyfarfod y contractwr.

b) ***Torri'r Llwybrau 2017***

Llythyr yn cadarnhau'r swm ad-daliad a glustnodwyd i'r Cyngor am dorri llwybrau eleni – £2438.50, ynghyd â gofyn am gadarnhad os bwriedir fod yn rhan o'r trefniant cyn Ebrill 21ain.

Anfonwyd tendr torri'r llwybrau i'w hysbysebu yn *Y Ffynnon* ond, ni dderbyniwyd ymholiad.

c) ***Giatiau***

Adroddwyd fod tirfeddiannwr Pantgwyn yn cwyno nad osodwyd y giât fochyn a addawyd iddo y llynedd a bod problem ag un yng Nghefn Salfur, Mynytho, hefyd – cysylltir â'r Adran.

11. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Hysbyseb Swydd Cymorth Gweinyddol Dros Dro i Swyddfeydd Preifat Gweinidogion Llywodraeth Cymru***

Copi o'r uchod sy'n nodi mai dymunol yw sgiliau Cymraeg yn hytrach na hanfodol – ysgrifennir i fynegi anfodlonrwydd a gwrthwynebiad.

ii) ***Holiadur Byr – Boddhâd â Gwasanaethau ULlC***

Holiadur i ddarparu gwybodaeth perfformiad ar y gwasanaethau a ddarpara i Lywodraeth Cymru; atebwyd y ddau gwestiwn eisoes.

iii) ***Dogfennau BDO***

Nodir nad oes angen cyfieithu dogfennaeth, gan nad oes sail gyfreithiol dros gynnwys y gofyniad hwn yn yr archwiliad fel nodir mewn cymal yn Atodiad 4 y ffurflenni a dderbyniwyd oddi wrth BDO.

iv) ***Bwletin mis Mawrth***

Argraffwyd ambell daflen/ddogfen o'r uchod er gwybodaeth.

v) ***Canllaw'r Cynghorydd Da***

Copi pdf ohono i'w argraffu (44 tudalen) – un copi caled a dderbyniwyd eleni o gymharu ag un i bawb yn y gorffennol.

b) **Rheolwr Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn – Eich Ardal Chi – Beth sy'n Bwysig?**

Copi o ddogfen yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd, yn ogystal â barn trigolion yn ystod y sesiynau galw-mewn a gynhaliwyd ddiwedd y flwyddyn. Angen barn cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol a defnyddir yr asesiadau, ynghyd â nifer o ffynonellau eraill i lunio Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn.

c) **Adran Gyfreithiol – Y Pwyllgor Safonau – Penodi Aelod Pwyllgor Cymunedol**

Gwahoddiad i'r Cyngor enwebu aelod i fod yn 'Aelod Cymunedol' ar Bwyllgor Safonau Gwynedd ar ôl etholiadau mis Mai, ynghyd â chopi o'r meini prawf – neb â diddordeb.

ch) **Swyddog Trwyddedu – Cais Amrywio Trwydded Eiddo – Y Vaynol, Aber-soch**

Copi o'r uchod – angen sylwadau erbyn Ebrill 20fed. Gofynnwyd a yw'r un oriau yn bodoli i dafarndai eraill Aber-soch er mwyn tegwch.

12. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

C16/0638/39/LL	Dyluniad diwygiedig i estyniad a ganiatawyd gan Ganiatâd Rhif C14/0215/39/LL – Cilfan, Lôn Gwydryn, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1571/39/LL	Newid defnydd o Fanc (A2) i Siop (A1) a pharlwr hufen iâ a chaffi (A3) ar y llawr daear gyda lle eistedd a gweinyddu o'r cefn a fflat hunan gynhaliol (C3) ar y llawr cyntaf, ynghyd â chodi estyniad ac addasiadau i'r adeilad – Cyn-fanc NatWest, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C16/1673/39/LL	Dymchwel tŷ annedd deulawr presennol a modurdy ac adeiladu un newydd a phorth car – Y Fras, Mynytho **– Caniatawyd ag amodau**
C17/0033/39/LL	Cais newid defnydd ar gyfer ail-leoli pedair carafán wyliau yn ardal 'Y' y maes (dim cynnydd mewn niferoedd), ynghyd â thirlunio a gwelliannau amgylcheddol – The Warren, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C17/0117/39/LL	Adeiladu modurdy – Ty'n Morfa, Llanengan – **Caniatawyd ag amodau**
C17/0118/39/LL	Cais newid defnydd ar gyfer ail-leoli pedair carafán wyliau yn ardal 'T' (dim cynnydd mewn niferoedd), tirweddu a gwelliannau amgylcheddol – The Warren, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C17/0124/39/LL	Estyniad unllawr blaen a ffenestr gromen cefn – Bryn Rhosyn, 10 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C17/0125/39/LL	Adeiladu sied storio – Safle Hen Chwarel, Lôn Sarn Bach, Llanengan – **Caniatawyd ag amodau**
C17/0153/39/HY	Gosod arwyddion i gynnwys arwydd ffasgia ac un ar ganopi – Adeiladau Swyddfa'r Post, Lôn Pen Cei, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C17/0175/39/LL	Estyniad ochr a chefn, ymestyn llwyfan bren i flaen yr eiddo, creu teras i'r cefn a thirlunio – 8 Maes Awel, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS

C16/1345/39/YM	Ffenestri newydd a phorth – Gwêl yr Ynys, Wellington, 2 Lôn Wilis, Mynytho

13. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Ebrill y Clerc (Rh/S 002058), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £548.90 (Rh/S 002053 – Treth Toiledau Lôn Traeth)
b) John D. Roberts – £69.00 (Rh/S 002054 – Archwiliwr Mewnol)
c) Cyngor Gwynedd – £180.29 (Rh/S 002055 – Gwagio Biniau Baw Cŵn)
ch) Cyngor Gwynedd – £7497.60 (Rh/S 002056 – Glanhau Toiledau Lôn Traeth)
d) Casglwr Trethi – £57.30 (Rh/S 002057 – Talu Wrth Ennill)
dd) Y Clerc – £6.58 (Rh/S 002058 – Arwyddion Dynion/Merched i Doiledau Lôn Traeth)
e) Wildewood Tree Services – £725.00 (Rh/S 002059 – Torri Coed Peryglus a Thacluso yng Nghoed yr Allt)
f) Bacstal Pac – £93.91 (Rh/S 002060 – Gwasanaeth Paratoi Cyflog y Clerc)

Derbyniadau

a) Toiledau – £122.10 (Tâl Mynediad – £34.10, £25.30 a £62.70)
b) Mrs. Laura Goodman Jones – £16.00 (Rhent Cae'r Plwy')
c) G.D. Roberts a'i Fab – £270.00 (Bedd Newydd)

14. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF – CYFARFOD BLYNYDDOL**

Nos Fercher, Mai 10fed, 2017 am saith o'r gloch